# DEFNYDD CYFIAWN O DDŴR



## Trefn Gwasanaeth at Amser y Greadigaeth

**Cefndir**

'Llifed barn fel dyfroedd a chyfiawnder fel afon gref.' Amos 5.24

Heddiw, mae llawer o bobl yn byw mewn amgylchedd lle y peidiodd dŵr â llifo. Pallodd y nentydd diderfyn nes eu bod yn ddiderfyn sych. Yn y cyd-destun hwn o anghyfiawnder yn ymwneud â dŵr mae'r gwasanaeth hwn yn ein gwahodd i addoli'r Duw cyfiawn yn y gobaith y llifa cyfiawnder fel afon yn ein defnydd o ddŵr ac y treiddia uniondeb i'n calonnau a'n meddyliau yn ffrwd gref.

Paratowyd y gwasanaeth gan Fudiad Cristnogol Myfyrwyr India a'i gyhoeddi gyntaf gan y Rhwydwaith Ddŵr Eciwmenaidd.

Dengys y gweithgaredd ciwb dŵr rhithwir faint o ddŵr y mae'n ei gymryd i gynhyrchu llawer o'r bwydydd y byddwn yn eu bwyta'n rheolaidd. Gellir gwahodd pobl i'w archwilio yn ystod y gwasanaeth neu gellir ei greu at achlysur gwahanol. Mae gwybodaeth a chyfarwyddyd ar:
www.ctbi.org.uk/ctresources

churches together IN BRITAIN AND IRELAND

## Galwad i addoli

Annwyl frodyr a chwiorydd,
fel y bydd llawer o afonydd yn cydlifo i'r môr,
daethom ynghyd i addoli Duw,
ffynhonnell y dŵr bywiol.

Wrth inni addoli Duw mewn ysbryd a gwirionedd,
bydded i'n calonnau orlifo â moliant,
glanhaer ni gan ddyfroedd ei ras a'i faddeuant.

Bydded i nni gael ein hadnewyddu a'n hadfer gan Iesu Grist
sy'n addo inni ddyfroedd bywyd trwy ei atgyfodiad.

## Gweddi o addoliad a diolchgarwch

Â chalonnau'n ffrydio moliant i Dduw, ffynhonnell pob daioni,
addolwn yr Arglwydd.
Dduw'r cefnfor dwfn a'r nant bitw,
molwn di ac addolwn di am y rhodd o ddŵr sy'n cynnal pob bywyd.
Ac wrth addoli cofiwn yn ddiolchgar
amrywiol amlygiadau dy ras trwy'r rhodd o ddŵr.

**Arweinydd** Cofiwn ddyfroedd Massa a Meriba
**Pawb** **a molwn di a diolchwn i ti oherwydd yr wyt yn Dduw graslon dy ddarpariaeth.**

**Arweinydd** Cofiwn ddyfroedd iachaol pwll Siloam
**Pawb** **a molwn di a diolchwn i ti oherwydd yr wyt yn Dduw di-baid dy drugaredd.**

**Arweinydd** Cofiwn y bedydd yn nyfroedd afon Iorddonen
**Pawb** **a molwn di a diolchwn i ti oherwydd yr wyt yn Dduw sy'n achosi newid.**

**Arweinydd** Heddiw addolwn di a molwn di, y Duw sy'n darparu, yn trugarhau, yn achosi newid.

**Pawb** **Bydded i'r addoliad hwn ein galluogi i fod yn oruchwylwyr cyfrifol ar dy ddarpariaethau,**
**yn sianelau i'th drugaredd ac yn gyfryngau i achosi newid yn dy enw. Amen.**

**Emyn** Er enghraifft, *Bore a wawriodd*

**Gweddi gyffesu**

**Arweinydd** Dduw, ffynhonnell bywyd,
y bu dy ysbryd yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd adeg y creu,
Dduw, a ddaethost yn Iesu Grist
yn ddyfroedd byw i ddiwallu'r sychedig;
Dduw Ysbryd Glân, sy'n dyfrhau ac yn aeddfedu'r ffrwyth;
deuwn i'th ŵydd gan gyffesu
ein bod yn drachwantus ac yn drahaus,
ac yn ddi-hid o'th greadigaeth ryfeddol, yn enwedig o ddŵr.

**Pawb** **Llifed barn fel afonydd, llifed afonydd mewn cyfiawnder.**

**Arweinydd** Cyffeswn inni fod yn anghyfrifol yn ein defnydd o ddŵr,
inni ei wastraffu i foddhau ein bywydau cyffyrddus.
Mewn llawer lle troesom ef o fod yn adnodd naturiol
i fod yn nwydd i'w brynu a'i atal rhag pobl.
Yn enw datblygiad, sychwyd ffynonellau dŵr
neu eu llygru â gwastraff diwydiannol,
gan beryglu anifeiliaid a phlanhigion.

**Pawb** **Llifed barn fel afonydd, llifed afonydd mewn cyfiawnder.**

**Arweinydd** Cydnabyddwn y diffyg cydweithredu
rhwng gwahanol awdurdodau a mudiadau
i reoli adnoddau dŵr yn deg.
Cyffeswn ein methiant, fel cymunedau ffydd,
i geisio cyfiawnder ar fater dwr
a gofynnwn am faddeuant am beidio â chodi llais
dros y sychedig a'r rhai sy'n marw mewn sychdwr.

**Pawb** **Llifed barn fel afonydd, llifed afonydd mewn cyfiawnder.**

**Arweinydd** Cyffeswn inni wylio'n fud
wrth i Ddalitiaid India a sawl cymuned fregus arall
gerdded milltiroedd bob dydd i ymofyn dŵr i'w teuluoedd.
Gofidiwn am inni gyfrannu at droi dŵr yn beth i'w werthu,
a thrwy hynny lygru a phrinhau'r ffynonellau.
Deuwn i'th ŵydd gan gywilyddio inni fod mor ddi-hid
o gam-drin dŵr ac adnoddau naturiol eraill,
a gofynnwn iti ein hysbrydoli a'n herio
i arbed a chynilo dŵr ac i'w ddefnyddio'n ddoeth.

**Pawb** **Llifed barn fel afonydd, llifed afonydd mewn cyfiawnder.**

## Gollyngdod

**Pawb** **Dduw, a ddaeth â dŵr o'r graig,
a ddiwallodd syched y rhai a oedd yn marw yn yr anialwch,
a roddodd inni yn Iesu y dyfroedd bywiol
na fydd y sawl a'u profa yn sychedu byth,
Dduw, a fu, yn Iesu, farw yn sychedig ar y Groes,
am nad oedd neb i ddiwallu ei syched ef,
gwrando ar bawb sy'n cyffesu o ddifrif a maddau inni,
fel y byddom yn gyfrifol yn ein defnydd o ddŵr,
yn effro i anghenion taer eraill sydd heb ddŵr,
ac yn ddoeth i gadw ac arbed dŵr,
fel y llifed yr afonydd mewn cyfiawnder
ymhlith yr holl genhedloedd.
Amen.**

## Darlleniadau o'r Ysgrythur

Amos 5:24
Ioan 4:7-24

## Pennau pregeth

Mae'r rhain i'w cael ar **www.ctbi.org.uk/ctresources**

## Ymbiliad

Bydd arnoch angen gwydriaid o ddŵr glân, gwydriaid o ddŵr hallt, potel o cola a gwydryn gwag. Gellir chwarae cerddoriaeth dawel yn gefndir.

**Arweinydd** **G**weddïwn dros y bydysawd oll. (*Daliwch i fyny y gwydriaid o ddŵr glân.*) Arglwydd, bydded i'r gwydriaid hwn o ddŵr glân ein hatgoffa o'r ffynonellau dŵr yfed glân sydd ar gael. Cynorthwya ni i warchod y rhodd o ddŵr ac i'w defnyddio mewn ysbryd o sancteiddrwydd a chyfrifoldeb. Bydded ein bywydau mor gytbwys nes disodli trachwant gan ystyriaeth o angen a'r duedd i wastraffu gan ymrwymiad i arbed.

**Pawb** **Ffynhonnell bywyd, golcha ni'n lân o drachwant a phechod.**

**Arweinydd** (*Daliwch i fyny y gwydriaid o ddŵr hallt.*) Bydded i'r gwydriaid hwn o ddŵr hallt ein hatgoffa o ddagrau'r rhai hynny y bygythir eu bywyd gan or-halltu eu hadnoddau dŵr. Bydded i bawb sy'n cyfrannu at godi lefelau'r moroedd wylo dagrau o edifeirwch a dysgu byw'n syml fel y gall eraill, yn syml, fyw.

**Pawb** **Greawdwr bywyd newydd, trawsffurfia ni fel y byddom yn sianelau bywyd.**

**Arweinydd** *(Daliwch i fyny y botel cola.)* Dduw cyfiawnder, gweddïwn dros bawb sy'n gwrthwynebu corfforaethau rhyngwladol a datblygiadau sy'n anrheithio ein hadnoddau naturiol ac yn bygwth bywoliaeth miliynau o bobl. Yn India, cofiwn yn arbennig am Bwyllgor Cydsafiad Plachimada, Narmada Bachao Andolan, Mudiad Cynghrair Cenedlaethol y Bobl, y Mudiad Llwythol, y Dalitiaid a'r bobloedd gynhenid. Gweddïwn dros bob mudiad y mae a wnelo â gwarchod dŵr, a thrwy hynny, â gwarchod dy rodd di o fywyd. Cynorthwya hwy, a'u harwain a'u cynnal yn eu hymdrechion.

**Pawb** **Dduw cyfiawnder, nertha'r rhai hynny sy'n ceisio gwarchod dy greadigaeth.**

**Arweinydd** (*Daliwch i fyny y gwydryn gwag.*) Arglwydd, gweddïwn dros bob cymuned sy'n brwydro am ddefnydd cyfiawn o ddŵr. Dyro inni drugaredd i gydgerdded â'r rhai hynny sydd heb ddŵr y bywyd. Cynorthwya ni i ymwacau o bob rhagfarn a llanw ni â gweledigaeth o undod a brawdgarwch fel y gallwn gydweithio i warchod y rhodd o ddŵr.

**Pawb** **Dduw cyfiawnder, dyro inni dy weledigaeth.**

**Arweinydd** Arglwydd, gweddïwn dros yr eglwys gyffredinol a thros ei chenhadaeth a'i gweledigaeth. Ysbrydola ni i weithio dros ddefnydd cyfiawn o ddŵr. Trawsffurfia ein bywydau fel y byddom yn sianelau cyfiawnder – nid yn unig yn ein pregethu ond hefyd yn ein bywydau bob dydd. Rhodded dy eglwysi arweiniad i'n cymunedau ar warchod dŵr ac ar gynnal bywyd yn ei holl gyflawnder. Una dy eglwysi i gydweithio â'i gilydd fel y bo cyfiawnder yn teyrnasu ac y bo dŵr ar gael i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol.

**Pawb** **Dduw gobaith, gwna ni yn offerynnau gobaith.**

**Arweinydd** Cyflwynwn y gweddïau hyn iti yn enw Crist, ein Gwardewr.

**Pawb** **Amen.**

## Emyn **Popeth a wnaeth ein Duw a'n Rhi**

Popeth a wnaeth ein Duw a'n Rhi
Cyfoded lef i'n canlyn ni.
I'r Arglwydd, Haleliwia;
Ti, danbaid haul, oleuni gwiw,
Di, arian loer o dirion liw,
I'r Arglwydd, i'r Arglwydd,
Haleliwia, Haleliwia, Haleliwia.

Ti, fuan wynt a'th rymus lef,
Gymylau sydd yn nofio'r nef,
I'r Arglwydd, Haleliwia;
Di, fore hael clodfora Iôr,
A sêr y nos yn gyson gôr,
I'r Arglwydd, i'r Arglwydd
Haleliwia, Haleliwia, Haleliwia.

Ti, ddŵr rhedegog pur ei ryw,
Rho dithau glod i'r Duw a'th glyw,
Haleliwia, Haleliwia;
Di, dân meistrolgar sydd ynghyd
Yn gloywi a gwresogi byd,
I'r Arglwydd, i'r Arglwydd
Haleliwia, Haleliwia, Haleliwia.

Fwyn ddaear fam o ddydd i ddydd
I ni sy'n rhoi bendithion rhydd,
Haleliwia, Haleliwia;
Dy ffrwyth, dy flodau o bob rhyw,
Datganant hwy ogoniant Duw,
I'r Arglwydd, i'r Arglwydd
Haleliwia, Haleliwia, Haleliwia.

## Gweddi'r Arglwydd

**Pawb** **Dduw Dad a Mam,**
**y mae pob bywyd yn llifo ohono a thrwyddo ac iddo,**
**Y mae dy enw'n sanctaidd**
**am dy fod yn dyfrhau pob creadur â bywyd.**
**Llifed 'dyfroedd cyfiawnder' i'n plith**
**a thrigo gyda ni yn dy ŵydd.**
**Dyro inni ddigon o ddŵr at ein byw,**
**a chynorthwya ni i'w rannu, ac i rannu adnoddau eraill,**
**â'r sawl sy'n marw o syched.**
**Maddau inni nad ydym na diffuant na sensitif na chyfrifol**
**wrth gadw ac arbed dŵr.**
**Maddau inni am gam-drin y greadigaeth.**

**A dysg ni i faddau i'n glydd.**
**Nac arwain ni i'r demtasiwn o gronni dŵr**
**yn wrthrych trachwant a grym,**
**eithr gwared ni rhag bucheddau rheibus.**
**Oherwydd y mae dy air fel dŵr yn ein golchi o ddrygioni,**
**dy deyrnasiad yn gyfiawnder sy'n llifo fel ffrwd gref**
**i ddileu awdurdodau a thywysogaethau**
**o genhedlaeth i genhedlaeth,**
**o hanes i hanes, byth bythoedd.**
**Amen.**

## Y fendith

**Pawb** **Bydded i Dduw, sy'n peri i'r glaw ddyfrhau wyneb y ddaear,**
**I Iesu Grist, sy'n rhoi inni ddŵr y bywyd tragwyddol,**
**I'r Ysbryd Glan, sy'n diwallu syched â doniau o ffynnon bywyd,**
**ein hysbrydoli a'n herio i geisio defnydd cyfiawn o ddŵr**
**a'n bendithio i gyd**
**fel y llifwn ninnau yn 'ddyfroedd o gyfiawnder'**
**yn awr a byth.**
**Amen.**

**Cydnabyddiaeth**

Paratowyd y gwasanaeth gan Fudiad Cristnogol Myfyrwyr India a'i gyhoeddi gyntaf gan y Rhwydwaith Ddŵr Eciwmenaidd, prosiect a gychwynnwyd gan Gyngor Eglwysi'r Byd ac sy'n cynnwys rhwydwaith o eglwysi a mudiadau Cristnogol sy'n hyrwyddo dŵr hygyrch i bobl ledled y byd.

Y nodiadau at bregeth gan Dudley Coates.

Cewch fwy o wybodaeth am y Rhwydwaith Ddŵr Eciwmenaidd ar http://water.oikoumene.org/en/

Lluniau: t1 United Nations Photo, t8 Gates Foundation

